# LLWYDDO'N LLEOL

## YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

**ENW:** Elen Beynon

**BRO:** Abergwili, Sir Gâr

## Blas ar fyd cyhoeddi

Mae Elen Beynon yn un o'r rhai ieuengaf i elwa ar elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol. Diolch i'r rhaglen cafodd swydd gyda chwmni cyhoeddi Atebol, yn gweithio ar brosiectau cyhoeddi ac adolygu testunau.

"Roedd y profiad hwn yn amhrisiadwy," medd Elen. "Fe roddodd gipolwg i mi ar sut mae llyfrau'n cael eu datblygu a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiant yng Nghymru."

## Sut mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu?

Diolch i'r rhaglen, cafodd Elen waith gydag Atebol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023.

"Roedd hynny'n brofiad anhygoel! Ces i ddysgu am sgriptio, ffilmio, cyflwyno a golygu cynnwys, gyda phwyslais ar amaethyddiaeth," meddai.

"Fe wnaeth e agor fy meddwl i bosibiliadau eraill, a dangos nad oes yn rhaid dewis un llwybr yn unig."

## Sut wnaeth y profiad hwn helpu gyda dy yrfa?

Bellach, mae Elen yn astudio Saesneg a Chyhoeddi ym Mhrifysgol Bath Spa yng Nghaerfaddon, ac mae'r profiad gyda Llwyddo'n Lleol wedi bod o fudd mawr iddi.

"Mae'r hyn ddysgais i gyda Atebol wedi rhoi mantais i mi wrth ddechrau fy ngradd," eglura. "Rwy'n teimlo'n fwy parod ar gyfer gwaith yn y dyfodol, a dwi'n gwybod bod cyfleoedd yn bodoli yng Nghymru hefyd."

## Beth nesaf?

"Fy ngobaith yw defnyddio fy mhrofiad i ddod o hyd i swydd yn y diwydiant cyhoeddi pan fyddaf yn gorffen fy ngradd," meddai.

"Byddwn wrth fy modd yn gweithio yng Nghymru yn y dyfodol, gan fod Llwyddo'n Lleol wedi dangos i mi fod digon o gyfleoedd yn fy milltir sgwâr."

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government